



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 31AIN IONAWR, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019)

## **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

### **AELODAETH (18)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Elin Walker Jones  
Olaf Cai Larsen  
Linda Ann Jones  
Peter Read

Alan Jones Evans  
Dafydd Owen  
Annwen Daniels  
Rheinallt Puw  
Catrin Wager

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams  
Beth Lawton  
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes  
Dewi Wyn Roberts

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Anwen J. Davies

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

#### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Sedd Wag - Aelod Unigol

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod fel rhai cywir:-

- (a) 6ed Tachwedd, 2018 – Cyfarfod Arbennig (ynghlwm)
- (b) 15fed Tachwedd, 2018 (ynghlwm)

## 5. POBL IFANC SY'N GADAEL GOFAL Y CYNGOR

15 - 19

**Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Derbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

\*10.30yb – 11.00yb

## 6. TALIADAU TAI DEWISOL

20 - 34

**Aelodau Cabinet – Y Cynghorwyr Craig ab Iago a Peredur Jenkins**

Derbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

\*10.30yb – 11.00yb

## 7. DIWEDDARIAD YMCHWILIAD CRAFFU CEFNOGI POBL ANABL GWYNEDD 35 - 39

Derbyn adroddiad y Gweithgor ar yr uchod (ynghlwm).

\*11.30yb – 12.00yp

\*amcangyfrif o'r amseroedd



---

## CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 6.11.18

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Alan Jones Evans, Elin Walker Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen, Peter Read ac Angela Russell.

**Swyddogion yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 4 isod:**

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)  
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)  
Sharon Eastlake (Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal Cymru)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**

Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)  
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)  
Dafydd Paul (Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, R. Medwyn Hughes, Linda Ann Jones, Rheinallt Puw a Catrin Wager.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 4 (Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd) ac Eitem 5 (Adroddiad Blynyddol ar Ymdrin â Chwynion a Cheisiadau Gwybodaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2017/18) oherwydd ei bod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a bod pennaeth ei gwasanaeth yn gweithio i Derwen.

Nid oedd o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny.

### 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.

### 4. AROLYGIAD O WASANAETHAU PLANT CYNGOR GWYNEDD

Croesawyd Sharon Eastlake, Prif Arolygydd y Tîm Arolygu i'r cyfarfod i gyflwyno'r Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Gwynedd.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi mai cyflwyno adroddiad yr arolygiad i'r pwyllgor hwn oedd cam olaf y broses o arolygu gwasanaethau plant y Cyngor. Pwysleisiodd ei fod yn ymfalchio'n fawr yn y negeseuon cadarnhaol o'r adroddiad a diolchodd i'r Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor am eu mewnbwn i'r arolwg.

Rhodddwyd trosolwg o ganfyddiadau'r arolwg a'r meysydd i'w datblygu gan y Prif Arolygydd ac ymhelaethodd y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar y gwaith oedd eisoes ar droed i ymateb i argymhellion yr adroddiad, gan nodi:-

- Bod yr Adran wedi cymryd sylw manwl o'r materion yn yr adroddiad sy'n cyfeirio at feysydd i'w datblygu, ac yn hytrach na datblygu rhaglen wella, bod gan yr Adran Raglen Uchelgais, gan mai cryfhau materion sydd eisoes angen adeiladu arnynt sydd angen ei wneud.
- Yn hytrach nag aros nes cyhoeddi'r adroddiad terfynol yn Awst, y cychwynnwyd ar unwaith ar y gwaith o edrych yn fanwl ar y meysydd i'w datblygu yn sgil derbyn adborth llafar gan yr arolygwyr ar ddiwrnod olaf yr arolygiad ym mis Mai.
- Bod Tîm Rheoli'r Adran yn trafod y trefniadau sicrhau ansawdd a'r trefniadau monitro cynnydd ymhob cyfarfod a bod trafodaethau'n digwydd yn y cyfarfodydd herio perfformiad hefyd.
- Y byddai'r Arolygiaeth yn cadw llygaid agos hefyd a bod cyfrifoldeb ar yr Adran i adrodd ar gynnydd yn y cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda'r Arolygiaeth.
- Bod datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ers yr adolygiad yn cynnwys:-
  - Gwneud gwaith gyda'n partneriaid i dynnu sylw at y gwasanaethau sydd ar gael.
  - Ychwanegu at y strwythur o fewn y tîm fel bod un drws ffrynt ar gyfer y gwasanaeth statudol, ond hefyd ar gyfer y gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Hefyd, roedd y gwasanaeth gwybodaeth teuluol yn eistedd o fewn y gwasanaeth hwnnw erbyn hyn.
  - Datblygu gwybodaeth ar gyfer y we fel y gellir hysbysebu beth sydd ar gael i deuluoedd ac unigolion fydd angen cymorth.
  - Ail-frandio'r gwasanaeth fel 'Hwb Teulu Gwynedd', a dyma'r porth cyfeirio i mewn i'r gwasanaeth bellach.
- Bod y strategaeth cefnogi teuluoedd yn flaenoriaeth o dan Gynllun Strategol y Cyngor. Adroddwyd i'r Tim Arweinyddiaeth a'r Cabinet o ran y cyfeiriad a chafwyd adnodd ychwanegol ar lefel uwch reolwr i ddatblygu ac i arwain y strategaeth cefnogi teuluoedd fel mater o flaenoriaeth i'r Adran ac ar draws y gorfforaeth.
- O ran adolygu cynlluniau gofal ar gyfer plant mewn gofal, bod angen edrych ar sut i wella'r canlyniad i'r plentyn a bod y Tîm Swyddogion Adolygu Annibynnol, o dan arweiniad yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd, yn datblygu eu rhaglen waith eu hunain fydd yn plethu i mewn i'r Rhaglen Uchelgais hon.
- Bod diffyg a phrinder lleoliadau maeth addas yn her genedlaethol, ac nid yn unig ar gyfer y plant hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Gwelwyd pwysau hynny'n gynyddol ar y Tim Maethu a gwelwyd cynnydd yn niferoedd y plant mewn gofal a'r plant sy'n cael eu lleoli gyda'u teuluoedd estynedig. 'Roedd gwaith yn digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol drwy'r Fframwaith Faethu Genedlaethol ac eglurodd y Pennaeth ei bod yn eistedd ar y grŵp llywio ar gyfer y fframwaith hwnnw fel y Pennaeth Plant Arweiniol ar gyfer y Gogledd. Hefyd, 'roedd rhaglen waith ranbarthol yn arwain ar recriwtio a marchnata ar gyfer maethu yng Ngogledd Cymru. Yn wyneb y pwysau cynyddol i'r Cyngor fod yn asesu teuluoedd i fod yn ofalwyr maeth, roedd rhyddhau adnoddau ar gyfer recriwtio a marchnata yn anodd, gan nad oes gennym y swyddogion hynny ein hunain o fewn ein hadnoddau yng Ngwynedd. Felly roedd y pwysau o'r llysoedd i gynnal yr asesiadau a mynd â theuluoedd drwy'r Panel Maethu yn pwyso'n drwm ar y Tîm Maethu ac roedd yn debyg bod hynny wedi bod ar draul ychydig o'r gwaith recriwtio yr arferid ei wneud. Er hynny, roedd 9 o deuluoedd oedd yn awyddus i faethu yn gyffredinol i'r Cyngor wedi dod drwy'r Panel Maethu yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran gan ei fod yn diwallu anghenion ein plant o fewn y sir.

Yna ymatebodd yr Aelod Cabinet, y Prif Arolygydd a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i gwestiynau / sylwadau pellach gan yr aelodau.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd sut roedd canlyniadau arolwg Gwynedd yn cymharu gyda siroedd eraill. Mewn ymateb, nodwyd bod Gwynedd yn un o 6 awdurdod lleol ar draws y Gogledd oedd wedi cael archwiliad yn yr un maes a bod y 6 adroddiad wedi'u cyhoeddi ar y We fel y gellid eu cymharu.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â lefelau staffio i'r dyfodol, nodwyd bod y Cyngor hwn yn ffodus iawn o safbwynt digonolrwydd staff a gweithwyr cymdeithasol. Nid oedd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithwyr trwy asiantaeth ac roedd y staff yn byw'n lleol, gyda chanran uchel ohonynt yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu cynnig gwasanaeth i deuluoedd yn eu dewis iaith. Roedd y gweithlu'n gymwysedig, yn brofiadol ac yn ymrwymedig iawn ac roedd y gwasanaeth yn edrych ar ystod eang o gymwysterau a sgiliau gwahanol o fewn y gweithlu, gyda phobl nad ydynt wedi cymhwyso fel gweithwyr cymdeithasol yn gwneud gwaith ardderchog gyda theuluoedd. Roedd y gwasanaeth yn llwyddo i ddenu pobl i swyddi yn rhwydd iawn, gyda hynny fel arfer yn golygu dyrchafiad mewnol neu weithwyr yn symud o un tîm i'r llall i ehangu eu profiad ac ychydig iawn o staff oedd yn gadael y Cyngor. Roedd y Gwasanaeth wedi rhoi llawer o fuddsoddiad dros nifer o flynyddoedd i fentora a chefnogi staff ac roedd y Tim Rheoli ar gael i'r staff ddod i ofyn am gyngor neu arweiniad. Mawr obeithid na fyddai'n rhaid edrych am arbedion o fewn y gweithlu gan y byddai hynny'n cynyddu'r risgiau yn sylweddol i'r Cyngor. Hefyd, rhagwelid y byddai digonolrwydd staff yn mynd yn anoddach i'r dyfodol wrth i nifer y cyfeiriadau gynyddu.
- Tra'n croesawu'r ffaith bod 9 teulu maeth newydd wedi'u recriwtio, holwyd faint o deuluoedd maeth a gollwyd dros yr un cyfnod. Mewn ymateb, eglurwyd bod rhai teuluoedd yn ymddeol ac eraill yn penderfynu nad ydynt yn dymuno parhau i faethu, ond yn gyffredinol, bod niferoedd y lleoliadau maeth yn cadw'n wastad. Gellid darparu'r union ffigurau i'r aelod, pe dymunai hynny.
- Mewn ymateb i ymholiad, ymhelaethodd y Prif Arolygydd ar rôl a phroses yr Arolygiaeth wrth ymweld â'r meysydd datblygu. Nododd hefyd y byddai cyfeiriad at y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Cyngor yn llythyr blynyddol yr Arolygiaeth fyddai'n cael ei gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd ei bod yn gynamserol i ddweud beth fydd effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 o safbwynt arbed plant rhag dod i ofal, ac o bosib' na welid canlyniad y gwaith hwn am nifer o flynyddoedd.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd ei bod yn anodd iawn barnu a yw'r gwaith ataliol wedi arbed plentyn rhag dod i ofal, oherwydd efallai na fyddai'r plentyn hwnnw erioed wedi dod i ofal beth bynnag. Ni chredid bod tystiolaeth ar gael yng Ngwynedd, nac yn genedlaethol chwaith. Roedd grŵp o fewn y Llywodraeth yn edrych ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol ac yn ceisio gwneud y cyswllt, ond ni chafwyd y maen i'r wal hyd yma yn anffodus. Pe gellid creu'r cyswllt hwn, byddai dadl dros symud adnoddau i'r ochr ataliol er mwyn lleihau'r niferoedd sy'n dod i ofal.
- Holwyd faint o blant sy'n dal gartref yn aros am leoliad. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwasanaeth yn craffu'r achosion yma'n hynod ofalus. Pe gwelid bod plentyn mewn peryg' o niwed arwyddocaol a bod y trothwy wedi'i gyrraedd o ran cychwyn achos llys (sy'n golygu bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn), byddai'r Adran yn gweithredu'n ddi-oed, waeth beth yw'r sefyllfa o ran lleoliad. Roedd y Panel Craffu Lleoliadau yn edrych ar bob un o'r plant sydd

mewn gofal ac yn sicrhau nad oes oedi na risg i'r plant hynny, ac fel pennaeth, cadarnhaodd nad oedd ganddi bryder bod yna blant yng Ngwynedd mewn peryg oherwydd diffyg lleoliadau.

- Gan gyfeirio at baragraff 3.11 o'r adroddiad, holwyd beth oedd maint y sampl o ddogfennau adolygu a welwyd gan yr arolygwyr. Mewn ymateb, nodwyd mai bychan oedd y sampl, ond bod y dystiolaeth o'r grŵp ffocws plant, y cyfweiliadau gyda'r staff ar draws yr adran a'r arolygon staff wedi dod i'r un casgliad, sef bod angen edrych yn fwy manwl ar lais y plentyn a'r trefniadau o ran gwneud yr adolygiad yn brofiad mwy cadarnhaol.
- Holwyd a fwriedid gwneud mwy o waith hanes bywyd gyda'r plant. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn waith pwysig iawn sydd angen digwydd ymhob achos o ran plant mewn gofal. Roedd yna enghreifftiau da o hyn, ond nid oedd yn digwydd yn gyson ar draws y gwasanaeth, yn bennaf oherwydd y pwysau gwaith ar weithwyr cymdeithasol. Cyflogwyd staff dros yr haf i ddod i mewn i gynorthwyo o fewn y timau ac roedd yna enghreifftiau o waith stori bywyd yn cychwyn. Roedd y timau hefyd yn gweithio gyda theuluoedd y plant er mwyn casglu lluniau, ac ati. Yn genedlaethol, datblygwyd pecyn cymorth ar gyfer gwneud gwaith stori bywyd sy'n canolbwyntio ar y materion allweddol ar gyfer hynny ac ar gyfraniad gofalwyr maeth i'r gwaith hwnnw. Cydnabyddid bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, ac er bod y gweithwyr yn awyddus iawn i wneud hynny, roedd yn anochel bod hyn yn llithro i lawr y rhestr blaenoriaethau wrth i waith arall ddod trwy'r drws.

Nodwyd bod yr adroddiad yn gadarnhaol iawn a llongyfarchwyd yr adran ar gynnal safon mor uchel. Mynegwyd gwerthfawrogiad yr aelodau o ddeall bod:-

- y meysydd datblygu eisoes yn cael sylw;
- 9 teulu maeth newydd wedi'u recriwtio;
- denu i swyddi yn digwydd yn rhwydd;
- asesiadau manwl o ansawdd da yn cael eu gwneud mewn modd amserol;
- staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr;
- teuluoedd yn gadarnhaol ar y cyfan o ran y cymorth a ddarperir gan y Cyngor;
- pobl ifanc yn gwerthfawrogi gonestrwydd eu cynghorwyr personol.

Ar gais aelod, cytunwyd i ddsbarthu copïau o'r Rhaglen Uchelgais i holl aelodau'r pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, y Prif Arolygydd a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd am eu holl waith yn y maes hwn ac am eu hymatebion i'r cwestiynau/sylwadau. Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r aelodau am eu cyfraniad gan nodi y gwerthfawrogiad y berthynas a'r deialog cyson rhwng yr Adran, y Pwyllgor Craffu a'r Arolygiaeth.

## **5. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YMDRIN Â CHWYNION A CHEISIADAU GWYBODAETH YR ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet yn darparu gwybodaeth ar niferoedd y cwynion a dderbyniwyd gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ystod y flwyddyn a'r rhesymau drostynt ynghyd â datrysiadau. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd ynghyd â manylion am y niferoedd o geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan nodi bod yr adroddiad blynyddol statudol hwn yn adroddiad cadarnhaol. Eglurodd, oherwydd natur gwaith dydd i ddydd y



gweithwyr, sy'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn, ei bod yn anorfod bod yna densiynau, ond mai lles a diogelwch y person ifanc yw'r ystyriaeth bennaf. Ychwanegodd nad oedd yr Arolygiaeth wedi codi unrhyw bryderon am drefn gwynion y Cyngor a chyfeiriodd at y sylwadau cadarnhaol a restrwyd ar gefn yr adroddiad gan unigolion ac asiantaethau sy'n bartneriaid i'r Cyngor.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd at rai o'r prif faterion yn yr adroddiad ac ymatebodd yr Aelod Cabinet, y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd i gwestiynau / sylwadau cyffredinol gan yr aelodau ynglŷn â'r drefn.

Codwyd y pwyntiau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r gallu i baratoi gwybodaeth byr rybudd ar gyfer achosion llys mewn achos o salwch / gwyliau'r swyddog perthnasol, eglurwyd nad oedd y gwasanaeth wedi wynebu'r sefyllfa honno hyd yma, ond bod gan yr Adran unigolion eraill sy'n gallu gwneud rhai rhannau o'r gwaith. Pwysleisiwyd ei fod yn waith manwl sy'n rhaid ei wneud yn ofalus iawn ac efallai y byddai'n rhaid dweud wrth y llys mewn rhai sefyllfaoedd nad yw'n ymarferol bosib' cyflawni'r gwaith o fewn yr amserlen.
- Holwyd faint o deuluoedd sy'n gleientiaid i'r gwasanaeth fel y gellid amcangyfrif pa ganran sy'n cyflwyno cŵyn am y gwasanaeth. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad yn perthyn yn bennaf o ran yr hanes i'r cyfnod pan roedd yna tua 600 - 700 o achosion, yn cynnwys plant mewn gofal, plant mewn angen a phlant sydd angen eu cefnogi, ond bod yr agenda ataliol wedi ymestyn y nifer hynny'n sylweddol erbyn hyn. Gan hynny, roedd yn anodd mesur ar hyn o bryd a oedd lefelau cwynion ar gynnydd ai peidio. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd adnabod tueddiadau gan fod y materion sy'n codi yn arbenigol iawn ac yn unigryw i amgylchiadau'r teuluoedd unigol.
- Holwyd pryd y credid ei bod yn addas i ddod â phryder i sylw'r pwyllgor craffu. Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad blynyddol yn gynnyrch pedwar adroddiad chwarterol, sy'n cael eu cynhyrchu fel rhan o drefniadau monitro'r gwasanaeth er mwyn gweld a oes unrhyw dueddiadau yn dod i'r amlwg. Cadarnhawyd nad oedd yna unrhyw fater o bryder wedi codi yn yr achos hwn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod yr Arolygiaeth yn cadw golwg manwl ar y cwynion a'r rhesymau drostynt a'i fod yntau hefyd yn derbyn adroddiadau cyson. Ar hyn o bryd, roedd yr ymatebion roedd yn dderbyn, a'r Arolygiaeth yn dderbyn, yn cadarnhau bod popeth posib' yn cael ei wneud, ond pe gwelai bod yna nifer uchel o un math o gŵyn a bod y mater angen ei graffu, byddai'n gofyn i'r pwyllgor gael golwg arno.
- Holwyd beth sy'n digwydd mewn sefyllfa lle mae'r Cyngor yn derbyn cŵyn dro ar ôl tro ynglŷn â diffyg cyfleusterau, oherwydd oni ddarperir y cyfleusterau hynny, bydd rhagor o gwynion yn dod i law. Mewn ymateb, gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r pwyllgor ymddiried ynddo ef a'r Gwasanaeth a'r Arolygiaeth i ddelio â'r sefyllfa, ond cadarnhaodd y byddai'n dod â'r mater i sylw'r pwyllgor craffu pe gwelai bod yna golli rheolaeth neu fod yna bryder.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â ffynhonnell y cwynion, nodwyd ei bod yn bosib' mewn theori i deulu gyflwyno mwy nag un gŵyn ynghylch yr un mater oherwydd nad ydynt yn hapus gyda'r ymateb a gafwyd i'w cŵyn wreiddiol, ond na chredid bod y ffigurau'n dangos hynny.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd ei bod yn syndod bod nifer y cwynion mor isel mewn maes sydd â chymaint o wrthdaro a bod pob cŵyn yn ymddangos yn briodol.

- Holwyd pryd mae'r gloch yn canu o ran niferoedd a beth yw'r cam nesaf os nad yw'r adnodd yn cael ei roi. Mewn ymateb, eglurwyd y byddai hyn yn cael ei godi yn y Tîm Rheoli ac y byddai'r Aelod Cabinet yn dod i wybod am y mater. Edrychid ar y gwersi i'w dysgu o gwynion, gan gynnwys unrhyw negeseuon ynghylch prinder adnoddau a disgwylid y byddai'r rheolwyr priodol yn ymwybodol bod yna broblem.
- Gan gyfeirio at gŵyn GC/3971-17 yn y tabl yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sylwyd bod y golofn olaf yn nodi '*Yn anffodus, nid oes adnodd yn bodoli ar hyn o bryd*' a holwyd lle gallai'r achwynydd droi nesaf. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn fater penodol yn ymwneud â'r unig therapydd galwedigaethol o fewn Gwasanaeth Derwen, ac er ceisio sicrhau trefniadau parhad gwasanaeth yn ystod absenoldeb y person hynny, y cyflwynwyd bid yn gorfforaethol yn ddiweddar iawn i gynyddu'r adnodd.
- Holwyd beth oedd yr amserlen o ran creu taflen gwynion. Mewn ymateb, eglurwyd y gohiriwyd creu'r daflen ar hyn o bryd gan y disgwylid i'r Cynulliad gyhoeddi rheoliadau diwygiedig. Nid oedd yr amserlen ar gyfer hynny yn hysbys eto.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r aelodau am y drafodaeth a'r cydweithio da rhwng pawb.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.20yp.

### **CADEIRYDD**

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

### 15.11.18

---

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Annwen Daniels, Elin Walker Jones, Cai Larsen, Dafydd Owen, Rheinallt Puw, Angela Russell, Catrin Wager ac Edgar Owen Is-gadeirydd y Cyngor

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

#### HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai), Susan Griffith (Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol), Aled Humphreys (Rheolwr Strategol Tai) a Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen - Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn (Uwch Reolwr Busnes) a Hawis Jones (Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Menna Baines, Anwen Davies, R.Medwyn Hughes, Linda Ann Wyn Jones, Beth Lawton a Peter Read. Hefyd y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant).

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(a) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol, yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Cai Larsen yn eitem 5 (Strategaeth Digartrefedd) oherwydd ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Y Cynghorydd Dewi Roberts yn eitem 6 ( Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref) oherwydd bod ei wraig yn gweithio i'r Adran Gofal fel gofalwraig

Nid oeddynt o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

#### 2. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

#### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol 13 Medi, 2018 fel rhai cywir.

#### 4. DIGARTREFEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn nodi bod Cyngor Gwynedd wedi cynnal Adolygiad Strategol o Ddigartrefedd yn unol â gofynion Deddf Tai Cymru (2014). Ategwyd bod canfyddiadau'r adolygiad yn gosod sylfaen i ddatblygu Strategaeth Ddigartref a bod y Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gamau gweithredu lleol fyddai'n ymateb i amcanion a gofynion y Strategaeth.

Cyfeiriwyd at y crynodeb gweithredol oedd wedi cael ei gynnwys gyda'r adroddiad oedd yn cynnig dadansoddiad manwl o lefelau a natur digartrefedd, awdit o'r gwasanaethau ac adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i'w gwario ar ddigartrefedd yn y Sir. Ategwyd bod y crynodeb gweithredol yn darparu tystiolaeth ar gyfer Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Darpariaeth Leol Digartrefedd Gwynedd.

Derbyniwyd cyflwyniad ar ffurf power point gan yr Uwch Reolwr Tai a'r Rheolwr Digartrefedd a Tai Cefnogol yn crynhoi prif ganfyddiadau'r adolygiad a'r ystyriaethau sydd wedi eu hadnabod. Amlygwyd bod cynllun gweithredol lleol (2018-2022) wedi ei llunio fel ymateb i'r adolygiad ac ar gael ar wefan y Cyngor

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r effaith mai credyd cynhwysol yn ei gael ar waith y Tim Digartrefedd, atgoffwyd yr aelodau nad oedd gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi ei gyflwyno i Wynedd hyd yma ac mai ymgeiswyr newydd yn unig sydd yn derbyn y cymorth. Er hynny, nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i baratoi unigolion a theuluoedd ar gyfer y newid a bod swyddog priodol ar gael i gynorthwyo gydag unigolion bregus. Anogwyd yr aelodau i gyfeirio unrhyw geisiadau am gyngor i'r Swyddogion Atebion Tai sydd ag arbenigedd yn y gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r nifer uchel sydd yn cael eu troi allan o'u cartrefi oherwydd diffyg talu rhent, amlygwyd bod y Tim Digartrefedd yn awyddus iawn i gydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai ac y byddai gwybodaeth am unigolyn / deulu yn cael ei rannu i geisio datrysiaid cyn i rywun gael eu troi allan. Ategwyd bod gan y Cymdeithasau Tai gamau i geisio atal digartrefedd ac os yw'r camau hynny i gyd wedi eu cymryd bydd y Gwasanaeth Digartrefedd yn camu i mewn i gynorthwyo a chynnig cefnogaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti y Gwasanaeth i ymdrin â'r cynnydd yn y niferoedd sydd yn gofyn am gymorth nodwyd nad oedd adnoddau digonol gan y Gwasanaeth Digartrefedd i ymdopi a'r gwaith ychwanegol. Awgrymodd yr Aelod Cabinet y gallid cyflwyno adroddiad fyddai'n amlygu bod y gwasanaeth yn ymwybodol o'r her y byddant yn ei wynebu i ymateb i'r cynnydd. Ategodd Pennaeth y Gwasanaeth bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y person yn ganolog i'r gwasanaeth a drwy ragweld y bydd cynnydd pellach yn y galw, nodwyd bod bid ariannol wedi ei gyflwyno i gryfhau'r capasiti ar gyfer y galw cynyddol yma. Bydd rhaid gwneud y defnydd gorau o'r adnodd a cheisio blaenoriaethu

Nododd y Cadeirydd nad oedd eisiau gweld effaith Credyd Cynhwysol yn faich ychwnaegol ar swyddogion y Gwasanaeth ac y dylid amlygu unrhyw bryderon i'r Pwyllgor cyn i'r sefyllfa ddirwyio.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â defnydd Taliadau Tal Dewisol a honiad bod Cyngor Gwynedd yn dychwelyd yr arian sydd ddim yn cael ei ddefnyddio, awgrymwyd y dylid gofyn i'r Pennaeth Cyllid am ddiweddariad. Ategodd y Rheolwr Digartrefedd bod Cyngor Gwynedd yn gwneud defnydd llawn o gyllideb Taliadau Tal Dewisol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â darpariaeth ar gyfer pobl ifanc sydd yn gadael carchar nodwyd bod swyddog penodol yn cydlynu'r gwaith yma drwy adnabod anghenion llety cyn

ymadael a'r carchar. Ategwyd bod y Swyddog ar restr fer gwobr 'Cymorth Cymru' gan fod y cynllun wedi ei adnabod fel un arloesol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen ystyried darpariaeth y sector breifat - angen sicrhau bod safon y tai yn cyrraedd y gofynion statudol
- Bod yr adolygiad yn cyfleu'r problemau ond dim datrysiadau
- Bod angen dod a mwy o dai gwag yn nol i ddefnydd
- Wylfa - angen cydweithio gyda Môn i geisio adnabod elfennau fydd yn creu effaith
- Bod angen rhannu ymarfer da gyda chynghorau eraill
- Awgrym i adolygu'r system pwyntiau - nid yw'r drern bresennol yn adlewyrchu sefyllfa argyfyngus unigolion / teuluoedd
- A yw dyfodiad Airbnb yn lleihau niferoedd eiddo sydd ar gael ar gyfer cartrefi
- Awgrym i greu rhestr o'r ddarpariaeth sydd ar gyfer y digartrefedd fesul ardal
- A oes modd i'r Cyngor sefydlu cwmni hyd braich i ddarparu tai cymdeithasol

Nododd yr Aelod Cabinet bod adolygiad yn cael ei wneud o'r system bwyntiau ac y bydd cyfle i ymgynghori ar y cynigion. Amlygwyd hefyd y bydd Strategaeth Tai yn cael ei gyflwyno yn fuan fydd yn adnabod meysydd penodol ac yn gyfle i ystyried syniadau amgen a chreadigol.

**Penderfynwyd:**

- **derbyn y wybodaeth**
- **llongyfarch y Gwasaneth am gyrraedd rhestr fer 'Cymorth Cymru'**
- **gofyn i'r Aelod Cabinet gyfarch sylwadau'r aelodau wrth lunio'r Strategaeth Tai**

## **5. RECRIWTIO A CHADW STAFF GOFAL CARTREF YNG NGWYNEDD – POBL HYN**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Reolwr Busnes yn amlygu canfyddiadau cychwynnol ymchwiliad gan gwmni CELyn i'r maes recriwtio a chadw staff gofal cartref yng Ngwynedd. Ategwyd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno fel rhan o ymchwiliad craffu gan y Pwyllgor sydd eisoes yn rhan o raglen waith y Pwyllgor.

Nodwyd bod y sefyllfa wedi dirywio yn ddiweddar gyda rhestrau aros am ofal mewn rhannau o Arfon a Phen Llyn yn ogystal a Meironnydd erbyn hyn. Ategwyd bod hyn yn destun pryder i'r Adran ac yn golygu bod nifer o bobl yn gorfod mynd heb ofal ar draws y Sir.

Diolchwyd am yr adroddiad a mynegwyd mai amserol oedd cyflwyno'r negeseuon cychwynnol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r niferoedd o becynnau sydd yn cael eu cyflwyno yn ôl gan y sector breifat, nodwyd bod y wybodaeth ar gael a bod y sefyllfa yn cael ei monitro

Nododd Pennaeth y Gwasanaeth bod canran uchel o weithwyr presennol o fewn oedran ymdeol ymhen 5 i 10 mlynedd a gallai hyn ychwanegu at y broblem i'r dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen sicrhau cynnal trafodaethau gyda'r Sector Breifat
- Bod angen denu pobl ifanc i lwybr gyrfa mewn gofal - a oes modd darganfod beth yw'r demograffi a beth oedd oedran pobl yn dechrau gweithio ym maes gofal

- Angen targedu mwy o ddynion i'r maes gofal
- Nad oedd cael car yn angenrheidiol (fel gofynion swydd) ymhob cymuned
- Bod angen uchafu statws y gwaith
- Rhaid rhoi ystyriaethau i gyflog a phwysau gwaith

Amlygodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai cynigion briff yr ymchwiliad i'w hawgrymu mewn cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet, Pennaeth y Gwasanaeth a Cadeirydd ac Isgadeirydd y Pwyllgor er mwyn symud y gwaith yn ei flaen fel maes blaenoriaeth.

Gwnaed cais i'r aelodau gyfeirio eu henwau ymlaen i'r Rheolwr Craffu os oedd ganddynt ddiddordeb bod yn rhan o'r ymchwiliad. Awgrymwyd cael aelodau o'r trydydd sector a phartneriaid i fod yn rhan o'r ymchwiliad hefyd.

**Diolchwyd am y wybodaeth. Derbyniwyd yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 1.10yp.

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

|                      |   |
|----------------------|---|
| <b>Cyfarfod</b>      | Pwyllgor Craffu Gofal                                   |
| <b>Dyddiad</b>       | 31/01/19  |
| <b>Teitl</b>         | Pobl Ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor                   |
| <b>Aelod Cabinet</b> | Cynghorydd Dilwyn Morgan                                |
| <b>Awdur</b>         | Aled Gibbard – Uwch Reolwr Gweithredol (Adnoddau Gofal) |

## 1. Cefndir

Gofynnwyd i'r adran ddarparu gwybodaeth ar bobl ifanc sy'n gadael gofal y Cyngor. Yn benodol gofynnwyd am wybodaeth ynglŷn â chynnydd y Cyngor yn erbyn adroddiad Breuddwydion Cudd gan y Comisiynydd Plant, Y Cynllun Pan Fyddai'n Barod, cysylltiad gyda'r Panel Rhiant Corfforaethol, cyrhaeddiad plant mewn gofal a gwasanaethau allsirol yn Gymraeg.

## 2. Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae achosion pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu dal gan y Tîm OI16. Ar ddiwedd Rhagfyr 2018 roedd 139 achos yn agored i'r tîm. Roedd 27 o'r rhain yn achosion pobl ifanc 16 ac 17 oedd sy'n derbyn gofal a chefnogaeth gan yr Adran. Roedd 28 peron ifanc 16 ac 17 oedd yn parhau i fod yn blant mewn gofal ac roedd 84 o bobl ifanc a oedd yn gymwys i dderbyn gwasanaeth ol-ofal.

## 3. Breuddwydion Cudd

Fe gyhoeddwyd adroddiad Breuddwydion Cudd gan y Comisiynydd Plant yn 2017 ac mae'r adroddiad yn gosod allan gweledigaeth y Comisiynydd ar gyfer yr hyn y dylai bod awdurdodau lleol yn ei wneud i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Gweler isod prif bwyntiau'r Comisiynydd yn ei hadroddiad a'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud mewn ymateb i hynny:

### **Cefnogaeth i bawb -**

**Dylai pob person ifanc dderbyn cefnogaeth hyd at 25 oed** - Mae'r Cyngor bellach wedi ymestyn cefnogaeth i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed. Yn flaenorol roedd y gefnogaeth yn gorffen pan oedd person ifanc yn cyrraedd 21 oed os nad oedd mewn addysg bellach/uwch. Mae gan bob person ifanc sy'n gymwys am wasanaeth gynghorydd personol.

**Dylai awdurdodau lleol a gofaluwr roi mwy o ffocws ar ddatblygu sgiliau annibyniaeth pobl ifanc** - mae hyfforddiant bellach yn cael ei gynnig ar y cyd gyda'r tîm maethu ar gyfer gofaluwr i'w cefnogi yn eu rôl o fod yn paratoi pobl ifanc tuag at annibyniaeth. Yn ogystal mae gan bob person ifanc gynllun llwybr ac mae adolygu'r cynllun ar y cyd gyda'r person ifanc yn gyfle i roi sylw at faterion penodol yn ymwneud a pharatoi a datblygu sgiliau annibyniaeth.

**Dylai adrannau weithio gyda'i gilydd** - mae gan yr adran drefniadau gweithio gyda'r adran dai, adran addysg, adran budd-dal tai a'r gwasanaeth ieuencid o fewn y Cyngor. Tu allan i'r Cyngor mae trefniadau cyd-weithio effeithiol gyda Grŵp Llandrillo ac Adran Gwaith a Phensiynau.

Dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu fforymau neu grwpiau trafod ar gyfer ymadawyr gofal - Ers Ebrill 2018 sefydlwyd fforwm o bobl ifanc. Mae'r fforwm yn cael ei arwain gan un o'r gweithwyr yn y Tîm OI16 ar y cyd gyda gweithiwr o'r tîm maethu. Er mwyn medru sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol mae'r uned gyfathrebu gorfforaethol yn cynorthwyo. Maent wedi cyfarfod 3 gwaith bellach a bu i'r fforwm gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyngor yn ddiweddar ar doriadau i'r gyllideb yn y dyfodol. Mae eu barn wedi bwydo mewn yn glir i ganlyniadau'r ymgynghoriad

hwnnw. Mi fydd y fforwm yn cyfarfod a Phennaeth yr Adran Blant yn ystod mis Chwefror a bydd y Pennaeth yn bwydo gwybodaeth yn ôl i'r Panel Rhiant Corfforaethol. Mae un o'r bobl ifanc hefyd yn aelod o'r Panel Rhiant Corfforaethol.

#### Tai ac Incwm

**Defnyddio Fframwaith Llety a Chymorth I ymadawyr gofal** – Mae bwriad I ail sefydlu grwp llety a chefnogaeth pobl ifanc erbyn 2019-20. Nid yw'r grwp wedi cyfarfod ers dros flwyddyn a bellach mae'r cynllun gweithredu angen ei ddiweddarau. Fel rhan o'r rhaglen waith mae protocol cydweithio gyda'r adran dai yn mynd I gael ei ddiweddarau erbyn diwedd Chwefror ac yn dilyn hynny fe drefnir cyfarfod o'r grwp.

**Gwybodaeth glir ynglŷn â'r arian a grantiau sydd ar gael wrth adael gofal** - mae gan yr adran bolisi cyllid sy'n amlinellu'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i bobl ifanc. Pan mae pobl ifanc yn troi'n 18 oed, eu lle mae eu hamgylchiadau'n newid, gall Swyddog Adnoddau'r Tîm Ôl 16 ymweld â hwy er mwyn trafod, rhannu gwybodaeth ac esbonio'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

**Beth allai cael ei wneud i sicrhau bod treth y Cyngor yn decach** - Fel nifer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r Cyngor wedi eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu Treth Cyngor hyd nes eu bod yn 25 oed.

**Cyfleoedd hyfforddi a swyddi** - Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai'r awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol ac fel cyflogwr fod yn medru cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae gwaith wedi ei gwblhau ar hyn drwy'r panel rhiant corfforaethol ac fel rhan o ddatblygu cynllun prentisiaeth y Cyngor y bwriad yw medru cynnig cyfleoedd hyfforddi i ymadawyr gofal drwy'r cynllun hwn.

Yn ogystal roedd y Comisiynydd yn dymuno i bob awdurdod lleol ysgrifennu at bobl ifanc a oedd yn gymwys am wasanaeth. Gweler y llythyr atodol.

#### 4. Cynllun Pan Fyddai'n Barod

Bu'r Cyngor yn rhan o'r rhaglen beilot ar gyfer y cynllun yma ers 2013-14. Daeth y cynllun yn statudol yn Ebrill 2016. Yn ystod cyfnod y rhaglen beilot (3 blynedd) fe fuodd 58% o'r bobl ifanc hynny oedd yn gymwys ar ei gyfer yn rhan o'r cynllun. Yn ystod 2018-19 mae'r 5 o bobl ifanc oedd yn gymwys wedi dod yn rhan o'r cynllun. Ar hyn o bryd mae 12 o bobl ifanc yn rhan o'r cynllun hwn.

Cyrhaeddiad Plant Mewn Gofal

Gweler isod canlyniadau TGAU plant mewn gofal dros y 5 mlynedd diwethaf:

| Mesur  | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|--|------|------|------|------|------|
| <b>Nifer y plant sy'n gadael gofal 16+</b>                                 |      |      |      |      |      |
| Gwynedd  | 12   | 9    | 16   | 16   | 9    |
| <b>% 16+ enillodd o leiaf 1 cymhwyster</b>                                 |      |      |      |      |      |
| Gwynedd  | 91%  | 67%  | 82%  | 94%  | 78%  |
| <b>% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-G TGAU</b>                                  |      |      |      |      |      |
| Gwynedd  | 50%  | 67%  | 82%  | 53%  | 67%  |
| <b>% 16+ enillodd o leiaf 5 A*-C TGAU (Gan gynnwys Iaith a Mathemateg)</b> |      |      |      |      |      |
| Gwynedd  | 25%  | 67%  | 62%  | 20%  | 22%  |



O'r 84 sy'n derbyn gwasanaeth ol-ofal, mae 29 mewn gwaith neu hyfforddiant, 26 mewn addysg bellach neu addysg uwch a 29 o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae 10 person ifanc yn y brifysgol.

### **5. Gwasanaethau allsirol yn y Gymraeg**

Mae'r ddarpariaeth yn dibynnu ym mhle mae'r plentyn wedi ei leoli tu allan i'r sir. Ar gyfer y plant hynny sydd wedi eu lleoli mewn lleoliadau preswyl allsirol, mae'r mwyafrif o leoliadau yng ngogledd orllewin Lloegr. Nid yw'r gwasanarth are u cyfer yn y Gymraeg, ac mae eu lleoliadau wedi ei penderfynu yn ôl eu hanghenion. Fodd bynnag, fel rhan o ddarpariaeth addysgol, gellir cynnig gwersi a gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, gydag esiamplau o wersi yn cael eu darparu drwy Skype mewn rhai achosion. Mae mwyafrif y lleoliadau maethu sydd tu allan i'r sir yng ngogledd Cymru (y rhan fwyaf ar Ynys Môn, Yng Nghonwy neu Sir Ddinbych). Mae darpariaeth addysg trwy gyfrwng ar gael yn yr achosion hynny yn unol â pholisi'r awdurdod addysg leol.



Ar Fawrth 1af eleni, fe gyhoeddwyd adroddiad “Breuddwydion Cudd” gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae’r adroddiad yn edrych ar brofiadau pobl ifanc sy’n gadael gofal yng Nghymru ac yn argymhell sut y gallai awdurdodau lleol fynd ati i wella a datblygu eu gwasanaethau ar eich cyfer.

Ar ôl derbyn yr adroddiad rydym wedi ystyried y cynnwys ac o ganlyniad bydd y gwasanaeth Ol16 yn rhoi sylw i’r canlynol fel rhan o ymateb i argymhellion y Comisiynydd.

### **Tai Diogel a Sefydlog**

- Rydym eisoes yn gweithredu cynllun “Pan Fydda I’n barod” i’r bobl ifanc hynny sydd mewn lleoliadau maethu. Mae’r cynllun yn galluogi pobl ifanc i aros ymlaen gyda’u gofawyr ar ôl troi 18 oed. Byddwn yn parhau i ddatblygu’r cynllun hwn. Os ydych yn berson ifanc dros 16 oed mewn lleoliad maeth gallwch drafod y cynllun gyda’ch gweithiwr cymdeithasol neu gynghorydd personol.
- Mae tai addas ar gyfer anghenion pobl ifanc yn adnodd prin. Byddwn yn gweithio gyda’r adran Tai i drafod ffyrdd o ddatblygu cyflwyno ceisiadau i fod ar y rhestr aros, ac i gael y flaenoriaeth sy’n briodol i chi fel pobl ifanc sy’n gadael gofal.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda darparwyr tai a chefnogaeth i wella’r dewisiadau sydd ar gael yn lleol. Fel rhan o hyn rydym eisoes wedi datblygu dau brosiect sy’n cynnig tai’n benodol ar gyfer pobl ifanc sy’n gadael gofal. Mae’r prosiectau hyn hefyd yn cynnig cefnogaeth symudol, sy’n galluogi’r gefnogaeth i symud a bod yn hyblyg i gyd-fynd efo anghenion chi fel unigolion.

### **Cyfleoedd ar gyfer addysg, gwaith a hyfforddiant**

- Rydym yn barod yn rhoi pwyslais ar gefnogi pobl ifanc yn eu dewisiadau addysg a gwaith. Yn ystod y flwyddyn yma byddwn yn gweithio’n agos gyda phrosiect newydd Ad Trac i wella’r cyfleoedd hyn ac i ddatblygu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant yn lleol. Ein bwriad yw gweithio gyda Ad Trac i ddatblygu cynlluniau sydd o ddiddordeb i chi fel pobl ifanc. Bydd eich cynghorydd personol yn medru trafod hyn ymhellach gyda chi.

### **Cefnogaeth ymarferol ac emosiynol**

- Mae adroddiad y Comisiynydd yn argymhell ymestyn cefnogaeth i bob un sy’n gadael gofal hyd at 25 oed. Fel gwasanaeth rydym eisoes wedi gweithredu ar hyn ac mae pob person ifanc sy’n cyrraedd 21 oed bellach yn cael y cynnig o ymestyn y gefnogaeth i 25 oed. Wrth gwrs, dewis personol fydd hyn ac nid pawb sy’n teimlo eu bod angen hynny. Beth bynnag, mae’n bwysig fod pawb yn gwybod ei fod ar gael a bydd eich cynghorydd personol yn gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod am y cyfle hwn.
- Rydym hefyd yn edrych ar y ffordd yr ydym yn defnyddio technoleg i rannu gwybodaeth gyda chi. Mae defnydd eisoes yn cael ei wneud o Whats App a Messenger a bydd hyn yn cario mlaen. Rydym hefyd yn awyddus i wella’n defnydd o Facebook i rannu gwybodaeth gyffredinol.
- Mae cefnogaeth ariannol i bobl ifanc yn rhan bwysig o’n gwaith. Rydym ar hyn o bryd wedi cychwyn edrych ar ba gefnogaeth ariannol rydym yn ei roi a byddwn yn medru rhannu unrhyw newid gyda chi ar ôl gorffen y gwaith yma.
- Yn olaf, mae’r Cyngor newydd gytuno ar strategaeth rhiantu corfforaethol, sy’n gosod allan ein cyfrifoldebau tuag atoch chi fel pobl ifanc mewn gofal neu sy’n gadael gofal y Cyngor. Rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac yn ymrwymo i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd gorau mewn bywyd. Fel rhan o’r gwaith hwn rydym yn awyddus i wrando ar lais plant a phobl ifanc a’n bwriad yw sefydlu grŵp fydd yn dod at ei gilydd yn achlysurol i drafod be sy’n bwysig i chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o hyn, gadewch i’ch cynghorydd personol wybod hynny.

Yn gywir

**Marian Parry Hughes**

**Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd**

**Tud. 18**

October 30, 2017



On March 1st this year, the "Hidden Ambitions" report was published by the Children's Commissioner for Wales.

The report looks at the experiences of young people leaving care in Wales and makes recommendations as to how local authorities could improve and develop services for you.

After receiving the report the local authority has considered its content and the 16+ service will address the following in response to the Commissioner's recommendations..

### **Secure and Stable Housing**

- We are already implementing a "When I Am Ready" scheme for those young people in foster placements. The scheme enables young people to stay on with their carers after turning 18. We will continue to develop this plan. Any young person over 16 in a foster placement can discuss the scheme with their social worker or personal adviser.
- Suitable housing for young people is in short supply. We will work with the Housing department to discuss ways of presenting applications to be on the housing waiting list, and to be awarded the priority that is appropriate for you as young people leaving care.
- We will also work with housing and support providers to improve the options available locally. As part of this we have already developed two projects that offer housing specifically for young people leaving care. These projects also offer floating support, which allows the support to move and be flexible to fit with your individual needs.
- **Opportunities for education, work and training**

We already place emphasis on supporting young people in their education and work choices. During this year we will work closely with the new Ad Trac project to improve these opportunities and to develop work experience and training opportunities locally. Our intention is to work with Ad Trac to develop plans that are of interest to you as young people. Your personal adviser will be able to discuss this further with you.

### **Practical and emotional support**

- The Commissioner's report recommends extending support for all care leavers up to the age of 25. As a service we have already implemented this and every young person reaching the age of 21 now has the offer of extending support until 25 years of age. Of course, this will be a personal choice and not everyone will feel they need it. Regardless of this, it's important that everyone knows it's available and your personal adviser will make sure you know about this opportunity.
- We are also looking at the way in which we use technology and social media to share information with young people. We already use Whats App and Messenger and this will continue. We are also keen to improve our use of Facebook to share general information.
- The provision of financial support for young people is an important part of our work. We are currently looking at what financial support we give and we will be able to share any changes with you after completing this work.
- Finally, the Council has agreed a new corporate parenting strategy, which sets out our responsibilities towards you as young people in care or leaving care. We take this responsibility seriously and commit to making sure you have the best life chances. As part of this work we are keen to listen to the voice of children and young people and our intention is to set up a group that will come together occasionally to discuss what is important to you.

If you are interested in being involved, please let your personal adviser know

Yours sincerely

**Marian Parry Hughes**

**Head of Children and Family Support Department**

**Tud. 19**

# Eitem 6

|                            |   |
|----------------------------|---|
| <b>ENW'R PWYLLGOR</b>      | Pwyllgor Craffu Gofal   |
| <b>DYDDIAD Y CYFARFOD</b>  | 31 Ionawr 2019  |
| <b>TEITL YR EITEM</b>      | Taliadau Tai Dewisol  |
| <b>PENNAETH GWASANAETH</b> | Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid   |
| <b>AELOD CABINET</b>       | Y Cyngorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Cyllid<br>Y Cyngorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| <b>AWDUR</b>               | Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg   |
| <b>PWRPAS</b>              | Ateb ymholiadau'r Pwyllgor am wariant Cyngor Gwynedd ar y cynllun   |

## Cyflwyniad

1. Cyflwynir yr adroddiad yma i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn sgil sylw a wnaethpwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 15 Tachwedd 2018 ynglŷn â defnydd Taliadau Tai Dewisol a honiad bod Cyngor Gwynedd yn dychwelyd yr arian sydd ddim yn cael ei ddefnyddio yn ôl i'r Llywodraeth.

## Beth yw Taliadau Tai Dewisol?

2. Cyflwynwyd Taliadau Tai Dewisol (TTD) am y tro cyntaf yn 2001, gyda'r bwriad o ganiatáu awdurdodau i roi cymorth ychwanegol i'r bobl hynny oedd, ym marn yr awdurdodau, angen cymorth ariannol pellach gyda'u costau tai.
3. Maent yn ychwanegol i Fudd-dal Tai taladwy, ac yn cael eu defnyddio i fynd peth o'r ffordd i lenwi'r bwloch pan nad yw'r Budd-dal Tai yn ddigonol i gwrdd â'r costau tai i gyd. Telir Taliadau Tai Dewisol gan yr Uned Budd-daliadau os yw dadansoddiad yn dangos fod unigolion angen cymorth ychwanegol gyda'u costau tai. Yn arferol, taliadau rhent yw'r taliadau sydd o dan sylw, ond gall hefyd olygu rhent ymlaen llaw, blaendaliadau, a chostau eraill sy'n gysylltiedig efo tai megis costau symud tŷ.
4. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn TTD, **rhaid i'r unigolyn fod yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai neu'r elfen tai o Gredyd Cynhwysol**, ac yn ymddangos i'r awdurdod fel eu bod angen cymorth ariannol yn ychwanegol i'r budd-dal yn maent yn ei dderbyn er mwyn ymdopi â'u costau tai.
5. Yn ddarostyngedig i gyfyngiadau sydd wedi cael eu gosod allan mewn deddfwriaeth, mae gan yr awdurdod lleol y disgrisiwn os i wneud taliad tai dewisol mewn achos penodol, maint y taliadau ac am ba gyfnod y dylid eu talu.

6. Y Rheoliadau Cymorth Ariannol Dewisol 2001 (*The Discretionary Financial Assistance Regulations*) (SI 2001/1167) yw'r ddeddfwriaeth berthnasol; rhain sy'n gosod allan y cyfyngiadau sydd ar weinyddu'r cynllun. Maent yn cynnwys rhestr eang o'r mathau o gostau nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth (e.e. unrhyw gostau gwasanaeth fyddai ddim yn gymwys i'w hystyried wrth gyfrifo budd-dal, costau dŵr a charthffosiaeth, costau Treth Cyngor, costau sydd wedi codi fel canlyniad o ôl ddyledion; noder nad yw'r rhestr yma yn gynhwysfawr).
7. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod cyfyngiadau ar swm y TTD y gellid eu talu i unrhyw hawlydd, yn seiliedig ar y Budd-dal Tai y maent yn ei dderbyn.

### **Costau**

8. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn Llywodraeth San Steffan yn gwneud cyfraniad ariannol i bob awdurdod lleol yn flynyddol er mwyn ariannu'r cynllun. Yn 2018/19, £719,976 yw cyfraniad y Llywodraeth ar gyfer Gwynedd. Gall unrhyw awdurdod wneud penderfyniad i bennu swm ychwanegol (hyd at 250%) ar ben cyfraniad y Llywodraeth.
9. Ar 30 Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan y byddai £5miliwn o arian TTD ychwanegol ar gael i 21 o ardaloedd gwledig arunig yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14. Rhesymeg y Llywodraeth oedd fod daearyddiaeth rhai cymunedau mwy anghysbell a bregus yn golygu nad yw datrysiadau i'r rhai a effeithiwyd gan waredu'r cymhorthdal ystafell sbâr (y "dreth ystafell wely") – megis gwaith, llety amgen a pobl yn chwilio am "lodgings" – mor rhwydd i'w darganfod yno. Er mwyn osgoi effaith anghymesur ar y rhai a effeithiwyd gan y polisi mewn cymunedau anghysbell ac arunig – ac mewn rhai achosion ar gymunedau cyfan – roedd y Llywodraeth yn ei ystyried yn briodol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r rhai a effeithiwyd. Roedd Gwynedd yn un o 3 ardal yng Nghymru (gyda Ceredigion a Powys); roedd 6 ardal yn Lloegr a 12 yn yr Alban.
10. Dyranriad gwreiddiol Gwynedd yn 2013/14 oedd £241,353, ond yn sgil yr ychwanegiad gwledig, cynyddodd ein dyranriad o 150% i £605,141. Yn y flwyddyn gyntaf, felly, roedd yr ychwanegiad wledig i Wynedd yn £363,788 (sef 60% o'r cyfanswm newydd).

11. Yn yr un flwyddyn (ar ôl ystyried yr ychwanegiad gwledig), roedd ein cymdogion yn derbyn y canlynol:

| AWDURDOD            | 2013/14<br>CYN YR<br>YCHWANEGIAD<br>GWLEDIG | 2013/14<br>AR ÔL YR<br>YCHWANEGIAD<br>GWLEDIG | CYFRANIAD<br>WLEDIG<br>2013/14 | CYFRANIAD<br>WLEDIG<br>2013/14 FEL %<br>O'R CYFANSWM |
|---------------------|---|---|--------------------------------|--|
| <b>GWYNEDD</b>      | <b>£241,353</b>                             | <b>£605,141</b>                               | <b>£363,788</b>                | <b>60.1%</b>   |
| <b>YNYS MÔN</b>     | £136,536                                    | £136,536                                      | 0                              | -  |
| <b>CONWY</b>        | £242,700                                    | £242,700                                      | 0                              | -  |
| <b>SIR DDINBYCH</b> | £217,194                                    | £217,194                                      | 0                              | -  |
| <b>CEREDIGION</b>   | £163,391                                    | £324,933                                      | £161,542                       | <b>49.7%</b>   |
| <b>POWYS</b>        | £154,975                                    | £512,845                                      | £357,870                       | 69.8%  |

Tabl 1: Effaith y Cyfraniad Wledig

12. Fel gwelir o'r tabl uchod, mae'r ychwanegiad wledig yn cael effaith sylweddol ar gyfansymiau'r awdurdodau hynny sydd yn ei dderbyn, a'u gallu i gynorthwyo eu trigolion gyda'u costau tai.
13. Yng Nghyllideb Haf 2015, ymrwymodd Canghellor y Trysorlys i wario £800 miliwn dros 5 mlynedd ar Daliadau Tai Dewisol (Cymru, Lloegr a'r Alban). Roedd y swm wedi ei rannu fesul blwyddyn fel a ganlyn:

| BLWYDDYN                       | 2016/17    | 2017/18    | 2018/19    | 2019/20    | 2020/21    |
|--------------------------------|------------|------------|------------|------------|------------|
| <b>CYLLIDEB<br/>(£ MILIWN)</b> | <b>150</b> | <b>185</b> | <b>170</b> | <b>155</b> | <b>140</b> |

Tabl 2: Cyllideb TTD Cymru, Lloegr, Yr Alban

*Ffynhonnell: Cyllideb yr Haf 2015*

14. Mae'r symiau a ddsbarthwyd yn 2016/17, 2017/18 a 2018/19 yn adlewyrchiad o'r uchod, a disgwylir y bydd y symiau ar gyfer dwy flynedd olaf y cylch yn dilyn y rhagolygon. Fel y gwelir, ar ôl bod ar ei uchaf yn 2017/18, bwriad y Llywodraeth oedd y byddai'r gefnogaeth yn lleihau'n raddol tuag diwedd y cyfnod.
15. Pwysleisir hefyd mai ymrwymiad hyd at ddiwedd cyfnod yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr bresennol yn unig sydd yno. Nid oes unrhyw arwydd o'r hyn fydd yn digwydd o Ebrill 2021, neu hyd yn oed os bydd y cynllun yn parhau o gwbl.

16. Ers 1 Ebrill 2017, mae gweinyddiad TTD yn yr Alban wedi cael ei ddatganoli i lywodraeth y wlad honno, gyda'r Alban yn derbyn 10% o'r gyllideb, a'r AGP yn dosbarthu'r 90% arall ymysg awdurdodau Cymru a Lloegr. Mae hynny'n golygu fod yr AGP yn dyrannu cyfanswm o £153 miliwn i awdurdodau lleol Cymru a Lloegr yn 2018/19 er mwyn ariannu Taliadau Tai Dewisol. Datganolwyd £3.5miliwn o'r elfen wledig i'r Alban, gyda £1.5miliwn yn aros yng Nghymru a Lloegr.
17. Mae methodoleg dosbarthu'r TTD i awdurdodau lleol yn seiliedig ar asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau o anghenion yn yr ardaloedd hynny. Caiff dyraniad pob awdurdod lleol eu cyfrifo ar sail pedair ffrwd ariannu (ym mhob ffrwd, gwneir addasiad i adlewyrchu'r hawlwy'r sydd eisoes wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol):
- **Ariannu craidd. £18 miliwn** wedi ei ddyrannu ar sail gwariant cyfrannol pob awdurdod ar Fudd-dal Tai.
  - **Lwfans Tai Lleol. £27 miliwn** wedi ei ddyrannu ar sail y gostyngiad mewn Budd-dal Tai taladwy fel canlyniad i bolisi'r Llywodraeth o rewi graddfeydd Lwfans Tai Lleol (LHA).
  - **Y Cap Budd-dal. £54 miliwn** wedi ei ddyrannu ar sail y lleihad cyfrannol yng nghyfanswm y Budd-dal Tai sy'n daladwy yn ardal pob awdurdod lleol fel canlyniad i bolisi'r Llywodraeth o osod cap budd-dal.
  - **Y "Dreth Ystafell Wely". £54 miliwn** wedi ei ddyrannu ar sail y lleihad cyfrannol yng nghyfanswm y Budd-dal Tai sy'n daladwy yn ardal pob awdurdod lleol fel canlyniad i "ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr". ***Mae'r £54 miliwn yma'n cynnwys £1.5 miliwn sy'n cael ei ddyrannu i'r naw ardal awdurdod lleol gwledig sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y polisi yma, gan gynnwys Gwynedd.***
18. Nid yw'r union fformiwla a ddefnyddir yn cael ei gyhoeddi, felly nid oes modd amcangyfrif faint o arian bydd Gwynedd yn ei dderbyn yn y flwyddyn ganlynol. Yn sgil hyn, ni fyddwn yn derbyn cadarnhad swyddogol – gan gynnwys cadarnhad os yw'r dyraniad gwledig i barhau – tan yn agos i ddechrau'r flwyddyn ariannol.
19. Mae amgylchiadau Gwynedd, yn enwedig ein cyfran o'r dyraniad gwledig, yn golygu fod gan Wynedd sylweddol fwy o adnodd TTD i'w rannu nag sydd gan ein cymdogion:

| ARDAL          | DYRANIAD TTD YN 2018/19 (£) |
|----------------|-----------------------------|
| <b>GWYNEDD</b> | <b>719,976</b>              |
| YNYS MÔN       | 153,308                     |
| CONWY          | 219,611                     |
| SIR DDINBYCH   | 252,543                     |
| CEREDIGION     | 303,667                     |
| POWYS          | 558,554                     |
| SIR Y FFLINT   | 325,115                     |
| WRECSAM        | 349,528                     |

Tabl 3: Cyfraniad Llywodraeth TTD 2018/19





## Polisi

20. Yn Ionawr 2015, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad “*Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru*”. Ymysg casgliadau’r astudiaeth genedlaethol oedd “Cynyddodd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru £5.1 miliwn yn 2013-14 ond mae anghysondebau a gwendidau sylweddol i’w gweld yn y ffordd y caiff y taliadau hyn eu dyrannu, eu dosbarthu, eu gweinyddu a’u defnyddio”. Nodwyd ganddynt nad oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dosbarthu Taliadau Tai Dewisol ar sail angen, ac fod anghysondebau a gwendidau yn y ffordd yr oedd cynghorau yn gweinyddu taliadau.
21. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol eisoes wedi cael eu herio gan Lywodraeth Cymru nad oedd cysondeb ym mholisiau a dulliau gweithredu cynghorau Cymru wrth weinyddu TTD, a felly cynhaliwyd prosiect TTD Cymreig mewn cydweithrediad â’r WLGA, gyda Cyngor Gwynedd yn rhan ohono.
22. Un o brif ddibenion y prosiect oedd cynhyrchu Fframwaith Polisi y gallai pob Cyngor ei ddefnyddio fel sail i bolisiau cyson ar draws Cymru, fyddai’n egluro sut mae’r cynllun yn gweithio, ac yn darparu rhesymeg a chyfiawnhad ar gyfer rhai o’r penderfyniadau gellid eu herio, yn enwedig felly yng ngŵydd lleihad yn y gyllideb genedlaethol.
23. Fel rhan o ddatblygu polisi ar gyfer Gwynedd, cyflwynwyd y Fframwaith i aelodau’r Grŵp Prosiect Amddifadedd yn Rhagfyr 2014, ac mewn ymarferiad ymgynghori rhannwyd y Polisi drafft i randdeiliaid megis Cymdeithasau Tai, y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr o’r Drydydd Sector.
24. Felly, ers blwyddyn ariannol 2015/16, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu polisi sy’n defnyddio’r fframwaith genedlaethol, a gwneir hynny yn ffurfiol gan yr Aelod Cabinet perthnasol (trwy ddefnydd Taflen Benderfyniad Aelod Cabinet).
25. Mae’r Polisi ar gyfer 2018/19 wedi ei gynnwys yn yr Atodiad. Gwelir ei fod yn nodi mai’r ffactorau pwysig wrth benderfynu ar flaenoriaethau yw:
  - Amgylchiadau ariannol yr aelwyd;
  - Y grŵp blaenoriaeth mae’r aelwyd ynddo;
  - Y graddau y mae aelodau’r aelwyd yn gallu ac yn barod i ymdopi gyda’r sefyllfa maent ynddi, neu na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wneud mwy;
  - Canlyniadau ariannol ehangach peidio â rhoi taliad.
26. Nid oes cadarnhad swyddogol wedi cael ei dderbyn eto ynglŷn â dyraniad 2019/20, ond rydym yn paratoi ar y sail y bydd yn cyfateb i lefel 2018/19. Nid ydym felly, rhagweld gwneud newidiadau sylweddol i’r Polisi.

## Gwariant Cyngor Gwynedd

27. Nodwyd eisoes fod yr ychwanegiad ardal wledig yn golygu fod modd i Cyngor Gwynedd fod llawer mwy hael gyda’i ddyraniadau TTD na’r mwyafrif o’n cymdogion. Serch hynny, mae risg ynghlwm â hyn o safbwynt creu gorddibyniaeth unigolion / teuluoedd ar y TTD. Datrysiad dros dro ddylai’r taliadau hyn fod, nid budd-dal ychwanegol, ac mae perygl o galedi difrifol os byddai’r taliadau hyn yn dod i ben, petai’r Llywodraeth yn atal y cynllun neu’r ychwanegiad gwledig.

28. Wrth ddadansoddi'r 6 mlynedd llawn ddiwethaf, gwelir fod y Cyngor wedi gwario mwy na chyfraniad y Llywodraeth mewn tair ohonynt, ac wedi dod yn fyr o wario'r cyfraniad yn llawn yn y dair blynedd arall.

| Blwyddyn | Cyfraniad Llywodraeth | Gwariant Gwynedd | Uwch (-) / Is (+) na'r cyfraniad £ | Uwch (-) / Is (+) na'r cyfraniad % | Nifer o Asesiadau |
|----------|-----------------------|------------------|------------------------------------|------------------------------------|-------------------|
| 2012/13  | £150,474              | £157,444         | -£6,970                            | -5%                                | 545               |
| 2013/14  | £605,141              | £585,069         | +£20,072                           | +3%                                | 1452              |
| 2014/15  | £733,297              | £788,910         | -£55,613                           | -8%                                | 1970              |
| 2015/16  | £620,483              | £558,141         | +£62,342                           | +10%                               | 2517              |
| 2016/17  | £659,887              | £646,656         | +£13,231                           | +2%                                | 2597              |
| 2017/18  | £726,374              | £751,472         | -£25,098                           | -3%                                | 2075              |

Tabl 4: Gwir Wariant Gwynedd ar TTD

29. Ers 2017, mae elusen Shelter Cymru yn cynnal ymgyrch flynyddol *Waste Not Want Not* i weld os ydi pob awdurdod lleol yn gwario eu dyraniad, gan enwi a chywilyddio'r Awdurdodau Lleol hynny sydd wedi methu gwario eu dyraniad yn llawn.
30. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, roedd dyraniad TTD Gwynedd gan y Llywodraeth yn £659,887 ac roedd modd i ni rannu £646,656, sef 98% ohono. Mewn amgylchiadau arferol, byddai gallu cael gwariant mor agos i gyllideb bur annaroganadwy a cyfnewidiol yn cael ei weld yn llwyddiant, ond roedd Shelter Cymru yn hynod o feirniadol o'r cynghorau oedd wedi tanwario. Nodir hefyd y byddai'n rhaid i'r Cyngor ddarganfod yr arian ar gyfer unrhyw wariant uwchben cyfraniad y Llywodraeth wrth drosglwyddo cyllidebau o feysydd eraill.
31. Erbyn blwyddyn ariannol 2017/18, roedd cyfraniad Gwynedd gan y Llywodraeth wedi cynyddu i £726,374, a bu i'r Cyngor wario £751,472. Fel canlyniad i hynny, derbyniodd Cyngor Gwynedd ganmoliaeth Shelter Cymru. Nodir, fodd bynnag, nad oedd gwahaniaeth sylweddol yn y modd y bu swyddogion y Cyngor yn gweithredu rhwng y ddwy flynedd. Roedd y lefel uwch o gyfraniad gan y Llywodraeth yn golygu fod modd gwneud addasiadau i'r polisi am flwyddyn er mwyn bod yn fwy haelionus. Er hynny, rydym yn ymdrechu'n barhaus i hybu TTD mewn sawl ffordd, gan gynnwys cydweithio gyda partneriaid yn y Cymdeithasau Tai Lleol a'r CAB. Mae perthynas y Cyngor gyda swyddogion Shelter Cymru yn lleol yn dda iawn hefyd.
32. Yn 2018/19 hyd yn hyn, mae dros **1,400** o aelwydydd Gwynedd wedi derbyn Taliadau Tai Dewisol; ar 10 Ionawr 2019, roedd y Cyngor wedi ymrwymo **£672,529.09** hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol (allan o gyfraniad Llywodraeth o £719,976). Mae hynny'n golygu fod **£47,446.91** yn weddill i'w wario yn y flwyddyn ariannol hon.
33. Mewn ymateb i'r potensial y bydd arian yn weddill heb ei wario, mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau wedi llythyru ac anfon ffurflen gais TTD i geisiadau budd-dal newydd a allai fod yn gymwys i TTD, gyda'r nod o ddosbarthu ein dyraniad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## Casgliad

34. Mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cyfraniad sylweddol uwch gan y Llywodraeth ar gyfer Taliadau Tai Dewisol na'r mwyafrif o'i gyndogion, ac mae'r ffigyrau yn yr adroddiad yn dangos fod ei wir wariant wedi bod yn agos iawn i'r swm yma ym mhob blwyddyn. Oherwydd natur y gwariant, lle mae angen ymrwymo gwariant am flwyddyn gyfan, a cadw arian wrth gefn i ddelio â cheisiadau newydd sy'n dod i mewn yn ystod y flwyddyn, credir fod y perfformiad blynyddol o safbwynt yr amrywiant rhwng y gyllideb a'r gwir wariant o fewn y terfynau disgwylidig.



# CYNGOR GWYNEDD

*POLISI GWEITHREDU AR GYFER RHANNU DYRANIAD  
TALIADAU TAI DEWISOL (TTD)*

*GWYNEDD  
2018/19*

MAWRTH 2018

## **POLISI TTD 2018/19:**

### **CYFLWYNIAD**

1. Mae'r polisi hwn yn gosod allan y dull a gytunwyd i benderfynu pwy ddylai dderbyn Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2018/19. Cafodd ei gynllunio i wneud penderfyniadau am ddyfarnu taliadau dewisol yn fwy systematig, cyson a thryloyw. Nid yw yn bwriadu gosod ateb safonol i bob cais. Mae ymarfer disgrisiwn yn parhau i fod yn ganolog i'r cynllun.
2. Telir TTD o gyllideb gyfyngedig a'r bwriad yw helpu pobl i gwrdd â chostau tai, fel arfer pan fo diffyg rhwng eu Budd-dal Tai (neu elfen tai o'r Credyd Cynhwysol) a'u rhent.
3. Nid yw hi'n bosib rhoi taliad ymhob achos ble fo diffyg o'r fath. Mae'r polisi hwn yn fodd o helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer talu pan fo'r galw yn fwy na'r hyn sydd ar gael, fel sy'n debygol o ddigwydd.
4. O ystyried y bydd TTD yn y pendraw yn gorfod cael eu targedu i'r rhai fydd eu hangen fwyaf, mae hi wrth gwrs yn bwysig gwirio ar y dechrau fod holl ymgeiswyr TTD yn derbyn eu hawl llawn o Fudd-dal Tai gan y byddai yn wastraffus rhoi TTD mewn amgylchiadau ble y gellid talu BT ychwanegol yn lle hyn.

### **AMCANION POLISI ALLWEDDOL**

5. Wrth wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau, mae yna rai amcanion cyffredinol:
  - Rhoi penderfyniad mor deg a chyson â phosib i'r holl ymgeiswyr.
  - Gwneud penderfyniadau sydd wedi eu cynllunio i wella'r canlyniadau i bobl.
  - Gwario'r gyllideb TTD flynyddol a chadw unrhyw newidiadau i flaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i leiafswm (efallai y bydd angen rhain i osgoi gor neu danwario).
  - Yn gyffredinol i roi mwy o flaenoriaeth i:
    - helpu'r rhai sy'n ymdrechu i helpu eu hunain;
    - cefnogi'r rhai sydd wedi gwneud popeth y gallant i ymdopi gyda'u sefyllfa ac na allant mewn gwirionedd wneud mwy;
    - atal canlyniadau negyddol fel digartrefedd sy'n debygol o olygu mwy o galedi i'r aelwyd yn ogystal â chostau ychwanegol ynghyd â chostau y gellid eu hosgoi i'r Cyngor.
  - Bwriad y polisi yw i roi cymorth tymor byr lle bo hynny'n bosib. Nid oes unrhyw sicrwydd o ran cyllid yn y dyfodol, ac ni ellir ystyried taliadau TTD fel ateb parhaol i'r toriadau Diwygio Lles. Hefyd, bydd nifer gynyddol o bobl yn chwilio am gymorth gan TTD fel y daw mesurau newydd megis y Cap Budd-dal newydd, a rhewi lwfansau a chyfraddau LTLI i rym. Bydd gan hawlwyd y Credyd Cynhwysol hefyd fynediad at y gronfa.
  - Bydd y polisi felly yn anghymhell diwylliant o ddibyniaeth ar daliadau TTD, yn arbennig felly pan fo dulliau amgen dichonadwy.

### **POLISI I BENDERFYNU AR FLAENORIAETHAU**

6. Nid yw hi'n ddigonol i roi taliadau i rai categorïau bras o bobl (fel unig riant a phobl anabl) i gwrdd â'r amcanion hyn. Mae angen diffinio pa bobl yn y categorïau hyn a chategorïau eraill a ddylai, fel rheol, gael blaenoriaeth.
7. Y ffactorau pwysig wrth benderfynu ar flaenoriaethau yw:
  - Amgylchiadau ariannol yr aelwyd;
  - Y grŵp blaenoriaeth mae'r aelwyd ynddo;

- Y graddau y mae aelodau'r aelwyd yn gallu ac yn barod i ymdopi gyda'r sefyllfa maent ynddi, neu na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wneud mwya;
- Canlyniadau ariannol ehangach peidio â rhoi taliad.

Caiff yr holl ffactorau hyn eu trafod yn fanylach yn y paragraffau isod.

### Cam 1: Asesiad Ariannol

8. Bydd asesiad ariannol yn cael ei wneud o bob cais drwy gymharu incwm gyda gwariant. Mae hyn mor syml â phosib ond yn ddigonol i wneud dyfarniad rhesymol. Ar gyfer y mwyafrif o geisiadau caiff yr holl incwm a gwariant eu hystyried yn ogystal ag unrhyw gyfalaf. Fodd bynnag, lle mae aelod o'r aelwyd yn derbyn Lwfans Byw Anabled (DLA) neu Taliad Annibyniaeth Bersonol (PiP), ni chaiff yr incwm DLA/PiP ei gyfrif, a bydd rhai elfennau o wariant sy'n gysylltiedig ag anabled yn cael eu heithrio hefyd. Os oes unigolion nad ydynt yn ddibynyddion ar yr aelwyd yna bydd yr incwm maent hwy yn ei gyfrannu i'r aelwyd fel arfer yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol, er y derbynnir y bydd gwariant yr aelwyd ar fwyd a gwres yn uwch. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r cymorth fynd i rai sydd heb fodd arall o gwrdd â'r angen.
9. Felly, y prawf cyntaf yw os ydyw cyfanswm ymrwymadau aelwyd yn gyfartal i neu yn fwy na'r incwm. Pan fo DLA yn cael ei dalu caiff ei eithrio o'r cyfrifiad incwm. Rhoddir ystyriaeth i holl wariant aelwyd wrth gyfrifo cyfanswm ymrwymiad yr aelwyd oni bai fod DLA yn cael ei dalu. Yn yr achos yma, caiff gwariant ar eitemau sy'n gysylltiedig ag anabled, hyd at y lefel y gydran DLA/PiP perthnasol, ei eithrio o gyfanswm y gwariant. Caiff unrhyw wariant sy'n gysylltiedig ag anabled uwchlaw lefel y gydran perthnasol ei gynnwys fel gwariant yr aelwyd. Os oes incwm ar gael, neu a fedrai fod ar gael, sy'n ddigonol i gwrdd â'r diffyg yn y rhent neu'r angen tai arall, ni fydd cais TTD fel arfer yn llwyddo oni bai, neu tan fo'r amgylchiadau yn newid.
10. Os oes peth incwm ar gael, ond ei fod yn annigonol i gwrdd â'r diffyg mewn rhent, bydd y cais am TTD yn cael ei brosesu, ac os yw'r meini prawf eraill yn cael eu cwrdd ac y penderfynir rhoi taliad, tynnir yr incwm sydd ar gael o'r taliad.
11. Mae'r prawf ychydig yn wahanol yn achos cyfandaliadau (e.e. blaendal rhent, rhent ymlaen llaw a chostau symud). Mae dau ran i'r prawf:
  - a) A oes yna unrhyw gynilion a fedrai gwrdd â'r angen?
  - b) Os nad oes, a yw'r incwm ar lefel gwariant neu is, neu ddim yn sylweddol uwch, ac oes yna unrhyw fodd i'r ymgeisydd gynilo'r swm sydd ei angen?

### Cam 2: Grwpiau Blaenoriaeth

12. Ar ôl cyflawni'r asesiad ariannol, yr ail gam yw penderfynu ar y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i amgylchiadau penodol bob cais. I wneud y broses mor syml â phosib, gosodir yr amgylchiadau penodol mewn pum grŵp, A-E sydd mewn trefn ddisgynnol o ran blaenoriaeth. Gweler Atodiad 1 i gael manylion bob grŵp.

### Cam 3: Y gallu i reoli'r sefyllfa

13. Y cam nesaf yw edrych ar ystyriaethau polisi cyffredinol. Yn aml, gellir defnyddio TTD yn fwyaf effeithiol fel cam dros dro pan fydd aelwyd yn ceisio ateb tymor hir i'r sefyllfa mae ynddi. Ble fo'n bosib, rhoddir blaenoriaeth uwch i'r rhai sydd yn weithredol yn cymryd camau eu hunain, er enghraifft rhai gyda diffyg Lwfans Tai Lleol sydd yn edrych am lety rhatach, neu y rhai gydag ystafelloedd sbâr sy'n trefnu i symud neu gael lletywr.

14. Er hynny, mae yna hefyd rai sefyllfaoedd ble y bydd angen TTD efallai am gyfnod hirach. Fe fydd yna rai aelwydydd na allant mewn gwirionedd leddfu eu sefyllfa drwy weithredu eu hunain. Er enghraifft, aelwyd gydag aelod anabl difrifol sydd ddim yn gallu gweithio neu yn gallu cael lletywr, sydd eisoes yn rheoli cyllideb yr aelwyd mor effeithiol â phosib. Bydd aelwydydd o'r fath hefyd yn cael blaenoriaeth uwch.
15. Mae yna hefyd aelwydydd sydd ddim ar hyn o bryd yn helpu eu hunain yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod ond sydd yn barod i ddechrau gwneud hyn. Yn yr achosion hyn, gall y TTD fod yn amodol i gymryd camau penodol a gall y dyfarniad fod am gyfnod byrrach.

#### **Cam 4: Osgoi costau pellach (a chaledi)**

16. Gellid defnyddio TTD i helpu atal caledi pellach fel dadfeddiant a'r costau cysylltiedig i'r cyngor o drin digartrefedd. Gallai'r perygl o golli tenantiaeth godi am sawl rheswm, ond nid oes unrhyw feirniadaeth yn cael ei wneud am y ffactorau sydd yn achosi'r broblem. Yn syml y maen prawf hwn yw osgoi costau pellach a chaledi.
17. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd yn hyfyw i dalu TTD yn ddiderfyn yn yr amgylchiadau hyn. Os yw aelwyd yn cael bygythiad o ddadfeddiant, ni ellir gadael i'r sefyllfa barhau yn ddiderfyn. Rhaid dod o hyd i ateb, boed hynny yn ddarpariaeth llety gwahanol neu bod yr aelwyd yn cymryd camau i leihau ôl-ddyledion. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf o dan y maen prawf hwn pan nad oes unrhyw ateb i'w weld.

#### **MATRICES GOSOD BLAENORIAETHAU**

18. Er mwyn helpu gyda phenderfynu ar flaenoriaethau, lluniwyd matrices syml sy'n cyfuno grwpiau blaenoriaeth gyda'r ystyriaethau polisi a ddisgrifiwyd uchod. Mae pob ymgeisydd yn derbyn sgôr gwaelodlin ar sail y grŵp blaenoriaeth maent ynddo – sgoriau y gwaelodlin yw **A=12, B=9, C=6, D=3 a E=0**.
19. Mae pwyntiau ychwanegol yn dibynnu ar y graddau mae ystyriaethau polisi cyffredinol (camau 3 a 4 uchod) yn cael eu cwrdd ac maent yn amrywio o 0 i 9. Rhoddir y pwyntiau uchaf (9) i'r rhai sydd
- yn weithredol geisio rheoli'r sefyllfa maent ynddi, neu
  - ddim yn rhesymol yn gallu gwneud dim mwy i helpu eu hunain, neu
  - ble fo talu TTD yn osgoi costau pellach i'r Cyngor (a chaledi i'r ymgeisydd), yn enwedig ble fo ateb yn bosib.

Os yw a), b) neu c) uchod yn cael eu cwrdd yn rhannol, rhoddir chwe phwynt ac os nad yw unrhyw un o'r ystyriaethau hyn yn cael eu cwrdd yna ni fydd unrhyw bwyntiau ychwanegol yn cael eu rhoi. Dim ond un o'r ystyriaethau polisi cyffredinol sydd angen eu cwrdd i ennill y sgôr uchaf. Nid oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yn cael eu rhoi i gwrdd mwy nag un ystyriaeth: mae hyn yn caniatáu i ystod eithaf eang o amgylchiadau i dderbyn sgôr blaenoriaeth uchel neu'r uchaf.

20. Mae hi'n bwysig peidio â defnyddio'r matrices yn gaeth ymhob achos, *bydd achosion unigol fydd yn syrthio y tu allan i'r canllawiau fydd yn cyfiawnhau taliad.*

## TALIADAU CYFREDOL – SGORIAU GWAELODLIN

### Cam 3: Y gallu i reoli'r sefyllfa

| Ystyriaethau polisi a phwyntiau ychwanegol  |   | Grwpiau blaenoriaeth a chyfanswm pwyntiau |       |       |       |       |
|---|---|---|-------|-------|-------|-------|
|   |   | A (12)                                    | B (9) | C (6) | D (3) | E (0) |
| Gallu i ymdopi â'r sefyllfa – yn gwneud popeth sy'n bosib neu ni ellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt wneud mwy.<br>Cydydffurfio gyda 19 a) neu b) uchod | 9 | 21  | 18    | 15    | 12    | 9     |
| Gallu i ymdopi – ymrwymiad wedi ei wneud.<br>Cydydffurfio gyda 19 a), neu b) uchod yn rhannol.  | 6 | 18  | 15    | 12    | 9     | 6     |
| Gallu i ymdopi – ddim yn gwneud unrhyw beth (er yn gallu)<br>Dim yn cydydffurfio gyda 19 a), neu b) uchod   | 0 | 12  | 9     | 6     | 3     | 0     |

### Cam 4: Osgoi costau pellach (a chaledi)

| Ystyriaethau polisi a phwyntiau ychwanegol  |   | Grwpiau blaenoriaeth a chyfanswm pwyntiau |       |       |       |       |
|---|---|---|-------|-------|-------|-------|
|   |   | A (12)                                    | B (9) | C (6) | D (3) | E (0) |
| Osgoi costau pellach/caledi – ateb i'w weld<br>Cydydffurfio gyda 19 c) uchod                        | 9 | 21  | 18    | 15    | 12    | 9     |
| Osgoi costau pellach/caledi – ateb yn bosib mewn amser<br>Cydydffurfio gyda 19 c) uchod yn rhannol. | 6 | 18  | 15    | 12    | 9     | 6     |
| Osgoi costau pellach/caledi – dim ateb<br>Dim yn cydydffurfio gyda 19 c) uchod                      | 0 | 12  | 9     | 6     | 3     | 0     |

### Tabl Sgoriau:

|    |                    |
|----|--------------------|
| 21 | blaenoriaeth uchaf |
| 18 | uchel              |
| 15 | canolig i uchel    |
| 12 | canolig            |
| 9  | canolig i isel     |
| 6  | isel               |
| 3  | isaf               |

**21.** Gellid defnyddio'r matrices i asesu cais yn y lle cyntaf a hefyd fel modd o helpu i sicrhau bod penderfyniadau mor gyson â phosib.



22. Wedi i sgôr gael ei benderfynu i bob cais, rhoddir TTD yn unol â'r tabl isod am 2018/19.

**Tabl (a)** - Ceisiadau cyfredol lle mae TTD eisoes yn cael ei dalu yn 2017/18

| Sgôr wedi ei gyfrifo | Tâl TTD - % o'r diffyg (Dyma'r uchafswm – gweler 27(a) i (d) ) | Uchafswm cyfnod y taliad |
|----------------------|--|--------------------------|
| 21                   | 75%  | Hyd at 52 wythnos        |
| 18                   | 50%  | Hyd at 52 wythnos        |
| 15                   | 40%  | Hyd at 52 wythnos        |
| 12                   | 30%  | Hyd at 52 wythnos        |
| 9                    | 20%  | Hyd at 52 wythnos        |
| 6                    | 0  | 0                        |
| 3                    | 0  | 0                        |

**Tabl (b)** - Ceisiadau newydd lle nad yw TTD eisoes yn cael ei dalu

| Sgôr wedi ei gyfrifo | Tâl TTD - % o'r diffyg (Dyma'r uchafswm – gweler 27(a) i (d) ) | Uchafswm cyfnod y taliad   |
|----------------------|--|--|
| 21                   | 100%   | Hyd at 26 wythnos, i'w ddilyn gan 75% am hyd at 26 wythnos pellach |
| 18                   | 75%  | Hyd at 26 wythnos, i'w ddilyn gan 50% am hyd at 26 wythnos pellach |
| 15                   | 40%  | Hyd at 52 wythnos  |
| 12                   | 30%  | Hyd at 52 wythnos  |
| 9                    | 20%  | Hyd at 52 wythnos  |
| 6                    | 0  | 0  |
| 3                    | 0  | 0  |

**23. Bydd y gyfundrefn uchod yn cael ei defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau am gyfnod o 6 mis o'r 1<sup>af</sup> Ebrill 2018**, ac fe adolygir y polisi ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

## AMODOLDEB

*Ni ragwelir y bydd angen defnyddio'r darpariaethau yma yn aml, ond mi fydd rhai dyfarniadau yn cael eu caniatáu ar yr amod fod yr ymgeisydd yn gweithredu mewn ffordd benodol, ac fe ellir caniatáu taliad am gyfnod byrrach na'r hyn a ddangosir yn y tabl yn 22 uchod.*

24. Telir y mwyafrif o'r taliadau blaenoriaeth uchaf yn ddiamod, un ai oherwydd nad oes unrhyw newid tymor byr yn debygol yn yr amgylchiadau a olygodd dderbyn tâl TTD, neu mae'r aelwyd eisoes yn gwneud popeth sy'n bosib i ymdopi gyda'r sefyllfa maent ynddi.

25. Mae pob dyfarniad arall yn amodol i o leiaf peth amodoldeb, sydd wedi ei ddylunio i annog yr ymgeisydd i ddatrys y diffyg mewn rhent heb fynediad i daliadau TTD. Mae graddau'r amodoldeb yma yn dibynnu ar yr amgylchiadau – mewn rhai achosion bydd yn gymharol ysgafn, ond yn fwy caeth gydag eraill. Mewn sawl achos bydd amodoldeb yn golygu cyfeirio pobl at asiantaethau cefnogi a chynghori.

## **AIL DDYFARNIADAU/ESTYNIADAU**

**26.** Gellid ymestyn dyfarniad am gyfnod byr heb fod angen cais newydd, mewn rhai amgylchiadau:

- Ble fo cais wedi ei wneud gan weithwyr cefnogol am reswm dilys;
- Wrth aros am newid mewn digwyddiadau (e.e. symud tŷ, genedigaeth plentyn);
- Pan fo angen rhagor o amser i gwrdd â'r gofynion sy'n atodol i ddyfarniad.

## **DYFARNIADAU RHANNOL/LLAWN**

**27.** Gellid rhoi dyfarniadau am swm wythnosol fydd yn cwrdd â'r diffyg rhwng y rhent a'r Budd-dal Tai sy'n daladwy yn llawn. Er hynny, bydd y Cyngor yn rhoi dyfarniadau rhannol yn y mwyafrif o achosion oherwydd cyfyngiadau cyllideb a hefyd gan y gall fod adegau pan y bydd yn fwy priodol i wneud dyfarniad rhannol, fel a ddisgrifiwyd yn a) i d) isod:

- a) Mae peth incwm ar gael i'r aelwyd ond ddim digon i dalu'r diffyg, yn cynnwys sefyllfaoedd ble fo mwy o incwm yn dod ar gael oherwydd bod dyledion yn cael eu talu.
- b) Mae polisi bwriadol i ganiatáu i aelwyd addasu yn raddol i sefyllfa newydd, fel y Maen Prawf Maint Cymdeithasol ("treth ystafell wely") neu'r Cap Budd-dal.
- c) Gosodwyd amodau i'r dyfarniad ond nid yw'r amodau wedi eu cwrdd.
- d) Yn ôl disgrisiwn y Cyngor mewn rhai amgylchiadau eraill (e.e. ble bo rhent afresymol o uchel mewn achosion yn y sector preifat).

## **NEWID AMGYLCHIADAU**

**28.** Disgwylir i'r holl ymgeiswyr adrodd am newidiadau mewn amgylchiadau fel y byddent ar gyfer Budd-dal Tai. Mae hi'n arbennig o bwysig fod ymgeiswyr yn rhoi gwybod am newidiadau mewn incwm, patrymau gwariant neu gyfansoddiad aelwyd. Mae'r mwyafrif o hysbysiadau ynglŷn â newid mewn amgylchiadau yn ymwneud â Budd-dal Tai ond ble fod TTD yn daladwy gall hyn olygu canslo neu newid y dyfarniad TTD. Gellid dilyn hyn gan chais newydd os yn briodol.

**29.** Yn gyffredinol, mae gordaliadau TTD yn cael eu cyfrif ac os ydynt yn adferadwy byddant yn cael eu hadennill fel dyledion amrywiol (tenantiaid preifat) neu drwy'r cyfrif rhent (tenantiaid cyngor).

## **CASGLIAD**

**30.** Ni fwriedir i'r polisi hwn gyfyngu disgrisiwn Cyngor Gwynedd wrth wneud penderfyniadau TTD. Cynllun yn ôl disgrisiwn ydyw a bydd rhai achosion bob amser gydag amgylchiadau arbennig neu anghyffredin ble fydd yr un sy'n gwneud penderfyniad yn ystyried y gellid cyfiawnhau dyfarniad TTD. Mantais cynllun yn ôl disgrisiwn yw, pa bynnag bolisi a ddefnyddir gellir a dylid gwneud dyfarniadau o'r fath i rai gydag amgylchiadau anghyffredin neu arbennig.

---

# Eitem 7

|                                      |   |
|--------------------------------------|---|
| <b>ENW'R PWYLLGOR</b>                | Pwyllgor Craffu Gofal   |
| <b>DYDDIAD Y CYFARFOD</b>            | 31 Ionawr 2019  |
| <b>TEITL YR EITEM</b>                | Ymchwiliad Craffu Cefnogi Pobl Anabl Gwynedd – Diweddariad      |
| <b>PENNAETH GWASANAETH</b>           | Aled Davies   |
| <b>AELOD CABINET</b>                 | Y Cyngorydd Gareth Roberts                                      |
| <b>AWDUR / CADEIRYDD Y GWEITHGOR</b> | Y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts                                    |
| <b>PWRPAS</b>                        | Diweddarau Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ar waith y Gweithgor |

## 1. Cefndir yr Ymchwiliad Craffu

- 1.1 Yn dilyn cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cyngorydd Peter Read i gyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin 2017, fe benderfynodd y Cyngor:

“Bod y Cyngor yn cyfeirio'r cwestiwn o addasrwydd trefniadau darparu cadeiriau olwyn i drigolion Gwynedd i'w ystyried ar gyfer y rhaglen craffu”.

- 1.2 Yn unol â phrosesau craffu'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater at y Pwyllgor Craffu Gofal a benderfynodd mai cynnal Ymchwiliad Craffu fyddai'n bodloni'r cynnig orau. Sefydlwyd Weithgor o'r Pwyllgor Craffu er mwyn arwain yr Ymchwiliad sy'n cynnwys rhai o aelodau'r Pwyllgor Craffu a dau Gyngorydd arall.

## 2. Nod yr Ymchwiliad Craffu

- 2.1 Cododd y Rhybudd o Gynnig uchod o dystiolaeth gan drigolion o Wynedd bod anfodlonrwydd gyda rhai agweddau o'r ddarpariaeth cadeiriau olwyn presennol. Nod yr Ymchwiliad Craffu, felly, yw ateb y cwestiynau canlynol:

- A ellir tystiolaethu bod yr unigolion sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog yn y broses o asesu a darparu cyfarpar addas, ac yn cael eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?
- Os oes anfodlonrwydd neu gwynion am y gwasanaeth presennol, a ydynt yn cael eu cyfarch yn foddhaol?
- Os oes angen, sut mae modd gwella'r gwasanaeth i'r dyfodol?

## 2.2 Byddwn yn ceisio eu hateb drwy:

- Gasglu tystiolaeth gan ddefnyddwyr cadeiriau olwyn am eu bodlonrwydd neu anfodlonrwydd gyda'r broses o gael eu hasesu ar gyfer y cyfarpar cywir, ac yna'u profiad o wasanaeth cynhaliol ar ôl derbyn cadair olwyn.
- Gasglu tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaeth yn y maes hwn.
- Gasglu tystiolaeth a chyd-drafod gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) er mwyn i ddarpariaeth y dyfodol fod y gorau y gall fod.

## 3. Cefndir y Ddarpariaeth Bresennol

3.1 Yng Nghymru, mae darpariaeth prosthetig a chadeiriau olwyn i'r sawl sydd eu hangen yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd – GYCS (Posture and Mobility Service). Mae'r Gwasanaeth hefyd yn aml yn dal i gael ei adnabod o dan ei hen enw ac acronym, sef ALAS (Artificial Limb and Appliance Service).

3.2 Mae GYCS yn wasanaeth cenedlaethol sy'n cael ei gomisiynu gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gydweithrediad y 3 Bwrdd Iechyd. Mae gan y Gwasanaeth Ystum Corff a Symudedd 3 canolfan– yn Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe – ac mae'r ddarpariaeth i drigolion Gwynedd fel arfer yn cael ei gynnig drwy'r ganolfan yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, sydd yn eu tro yn cydweithio'n agos gydag is-gontractwyr.

3.3 Mae'r GYCS yn gyfrifol am asesu anghenion yr unigolyn a chynnig y cyfarpar mwyaf addas, ac yna danfon, casglu, trwsio a chynnal offer gyhyd ag y bydd yr unigolyn ei angen.

3.4 Nod GYCS yn eu geiriau eu hunain yw:

'Cynnig gwasanaeth cyson a theg i bobl Cymru sydd ag anabledd hir-dymor neu barhaol. Mae'r GYCS yn ymrwymedig i gynnig gwasanaeth adferiad ardderchog i bobl ag anabledd. Ein nod yw amlhau gallu i'r eithaf a lleihau anabledd.'

3.5 Cam cyntaf y broses o gael cadair olwyn addas gan y GYCS yw i'r unigolyn gael eu hasesu ar gyfer y cyfarpar fwyaf addas gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol. Gall nifer o broffesiynau gwahanol fod yn gwneud y gwaith hwn, megis meddygon teulu, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaeth y Bwrdd Iechyd neu therapyddion galwedigaethol Cyngor Gwynedd.

3.6 Mae yna ddau fath o asesiad gwahanol gan ddibynnu ar natur anabledd yr unigolyn –

Asesiad lefel 1 – ar gyfer cadair olwyn y gellir ei gweithio â llaw. Gall yr asesiad fwy sylfaenol hwn gael ei gynnal gan nifer o'r proffesiynau a enwir uchod, gyda'r gweithiwr proffesiynol yn cwblhau'r asesiad a chyfeirio'r cais am offer ymlaen i'r GYCS.

Asesiad lefel 2 – achosion mwy cymhleth/cynhennus gyda'r angen am offer arbenigol. Mae'r asesiadau yma yn cael eu cynnal gan therapyddion galwedigaethol a thechnegwyr arbenigol sy'n gyflogedig gan y GYCS yn unig.

- 3.7 Fel y nodwyd uchod, unwaith y bydd yr asesiad wedi ei gwblhau a'i gyfeirio at y GYCS, bydd darparu a chynnal a chadw'r cyfarpar o dan ofal y corff hwnnw.

#### **4. Tystiolaeth defnyddwyr y gwasanaeth**

- 4.1 Mae'r Gweithgor wedi penderfynu canolbwyntio ar ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n drigolion o Wynedd yn unig, gan farnu mai dyma ble mae posib i'r Cyngor ddylanwadu ar unrhyw wasanaeth i'r dyfodol.
- 4.2 Mae 3 achos o gŵyn yn erbyn y GYCS wedi eu hanfon at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. Fe gafodd un o'r rhain ei basio ymlaen at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 4.3 Mae tystiolaeth sydd wedi ei gasglu gan y Gweithgor o brofiadau unigolion yn cynnwys y profiadau canlynol:

##### Person 1

Yn dilyn damwain car mae gan y person barlys o'r canol i lawr. Yn dilyn gadael yr ysbyty bu'n aros 8 mis i gael asesiad ar gyfer cadair olwyn arbenigol, gan aros 3 mis pellach i dderbyn y cyfarpar. Roedd yna faterion eraill, ar wahân i ddarparu cadair olwyn, yn codi o amgylch y gofal i'r unigolyn yn ogystal.

##### Person 2

Mae'r person angen cadair wedi ei theilwra'n arbennig gan bod gan y person barlys o'r canol i lawr. Bu'r person yn aros am dros flwyddyn am addasiad i'r gadair, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe ddatblygwyd broblemau iechyd cymhleth.

##### Person 3

Bu i'r person hwn fod yn yr ysbyty am 3 mis yn derbyn triniaeth am friw pwysau (pressure sore) a gododd gan nad oedd y cyfarpar yn addas. Roedd yna faterion eraill, ar wahân i ddarparu cadair olwyn, yn codi o amgylch y gofal i'r unigolyn yn ogystal.

##### Sylwadau eraill

Mae tystiolaeth gan unigolyn sydd wedi derbyn gwasanaeth gan ganolfannau GYCS yn Wrecsam ac hefyd yng Nghaerdydd, gyda gwahaniaeth, ym marn yr unigolyn, yn safon y gwasanaeth a dderbyniwyd rhwng y ddwy ganolfan.

#### **5. Casglu tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol**

- 5.1 Fel y nodwyd eisoes, mae therapyddion galwedigaethol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd yn gallu asesu oedolion ar lefel 1 ar gyfer y cadeiriau olwyn sylfaenol sy'n cael eu gweithio â llaw. Mae'r asesiadau yma wedyn yn cael eu cyfeirio ymlaen at y GYCS er mwyn eu gweithredu. O'r pwynt yma ymlaen mae'r dystiolaeth yn dangos mai ad-hoc yw'r cysylltiad rhwng therapyddion y Cyngor â GYCS, gyda rhai enghreifftiau o aros yn hir am benderfyniad, neu o beidio a derbyn gwybodaeth yn ôl am ddyfarniad ar yr asesiad. Yn y 12 mis rhwng Medi 2017 ac Awst 2018 derbyniodd y GYCS gyfanswm o 343 gyfeiriad am asesiad gan therapyddion galwedigaethol Cyngor Gwynedd.
- 5.2 Nid yw therapyddion galwedigaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cynnal asesiadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn hytrach, mae'r gwaith hwnnw i gyd yn gyfrifoldeb ar staff y GYCS. Yr unig gysylltiad sydd gan therapyddion y gwasanaeth plant â GYCS yw i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o ddarparu addasiadau i gartref yr unigolyn. Nid yw'r therapyddion, sy'n gweithio drwy wasanaeth Derwen, yn ymwybodol o broblemau na chwynion gan blant a phobl ifanc sydd o dan eu gofal am y ddarpariaeth cyfarpar na'r gwasanaeth pellach y maent yn ei dderbyn gan y GYCS.
- 5.3 Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio yn fwy anffurfiol gyda gweithwyr y GYCS yng nghydestun darpariaeth chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Yn y cyd-destun hwn mae'r cydweithio wedi esgor ar brofiadau positif i drigolion Gwynedd.
- 5.4 Mae'r Gweithgor yn parhau mewn trafodaethau gyda swyddogion o'r Bwrdd Iechyd a Chanolfan y GYCS ym Wrecsam ar hyn o bryd er mwyn cael darlun cyflawn o'u prosesau gwaith, sy'n cynnwys sut y maent yn ymateb i anffodlonrwydd neu gwynion am unrhyw wasanaeth.

## **6. Camau nesaf**

- 6.1 Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei chasglu hyd yma yn amlygu rhai materion neu broblemau cyffredin i'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth:
- Dim digon o amrywiaeth o gadeiriau olwyn sy'n addas i'r unigolyn
  - Amser disgwyl am asesiad yn achosi anhawster i'r unigolyn (amser aros yn 34 wythnos)
  - Amser disgwyl am gyfarpar/cadair olwyn yn achosi anhawster i'r unigolyn
  - Amser disgwyl i drwsio neu addasu cyfarpar yn achosi anhawster i'r unigolyn
- 6.2 Rydym yn parhau â'r trafodaethau gyda swyddogion y Bwrdd Iechyd a GYCS er mwyn casglu gwybodaeth ac i drafod y cydweithio rhyngddynt â sefydliadau eraill, megis Cyngor Gwynedd. Tan i ni gael y darlun yn gyflawn, mae hi felly braidd yn gynamserol i ni gynnig sylwadau neu argymhellion pellach ar hyn o bryd.

- 6.3 Gan bod defnyddiwr gwasanaeth o'r farn bod safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan wahanol ganolfannau GYCS ar draws Cymru yn gwahaniaethu, yna credwn bod angen ymchwilio i'r mater yma ymhellach. Oes dystiolaeth bellach? Pam fod hyn yn bod? A yw'n effeithio ar safon y gwasanaeth i'r unigolyn?
- 6.4 O ystyried y dystiolaeth sydd gennym hyd yma am brofiadau unigolion o dderbyn gwasanaeth, credwn bod cyfle i edrych ar sut mae gofal holl-gynhwysol i unigolion yn cael ei ddarparu. Mae'r gofal hwn, sef gofal y tu hwnt i ddarparu cyfarpar yn unig, yn cael ei ddarparu gan staff sefydliadau megis y Bwrdd Iechyd a Chyngor Gwynedd a bydd angen trafodaethau pellach cyn i ni fedru cynnig argymhellion ar gyfer y dyfodol.